LC163

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

## Gorchymyn Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (Cyfathrebu Electronig) (Cymru) 2001

**Y Cefndir**

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio adrannau 80A, 87, ac 88 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989. Mae'r diwygiadau'n cael eu gwneud drwy gymhwyso'r diwygiadau sydd wedi'u gwneud i Ddeddf 1989 gan Orchymyn Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (Cyfathrebu Electronig) (Lloegr) 2000 (OS 2000/3056) at Gymru.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Mae'r Gorchymyn yn ddiffygiol am ei fod wedi'i osod heb i'r dyddiad dod i rym gael ei roi ynddo.

Mae'n briodol cywiro hyn drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau. Cyhyd ag y gwneir hynny, nid oes unrhyw bwyntiau wedi'u nodi fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad Cenedlaethol i roi sylw arbennig iddynt.

**Sylwadau Cyffredinol**

**Y Nodyn Esboniadol– y paragraff cyntaf**

Nid yw'r cyfeiriad at adran 10(1) yn gwbl gywir mewn gwirionedd. Yr is-adrannau sy'n rhoi'r swyddogaeth i'r Cynulliad yw'r rhai y mae angen eu henwi.

**Y Nodyn Esboniadol– y chweched paragraff**

A ddylai "yng Nghymru yn unig" gael ei ddileu? Nid yw wedi'i ddefnyddio yn y pumed paragraff ac fe allai awgrymu bod adran 87 yn cael ei diwygio'n wahanol ar gyfer Cymru.

**Dyddiad gwneud**

Ceir gwall teipograffyddol, sef y dylai 'Wediiu wneud' ddarllen 'Wedi ei wneud'.

**Y Rhaglith**

I raddau cyfyngedig yn unig y mae adran 10 yn rhoi swyddogaethau i'r Cynulliad ac felly fe fuasai'n fwy boddhaol pe bai'r cyfeiriadau at bwerau wedi enwi'r darpariaethau penodol o fewn adran 10 y dibynnir arnynt.

Cymerir mai 10(2)(3)(d) a (4) yw'r pwerau yn adran 10, a hefyd o bosibl (3)(e).

Hefyd, dylai'r rhaglith fod wedi cynnwys croniclad i ddweud bod y rheoliadau'n cydymffurfio ag adran 8(3), fel y gwnaed yn y Gorchymyn ar gyfer Lloegr.

Byddai'n briodol cynnwys y materion hyn mewn Memorandwm Cywiriadau, ac er na chredir eu bod yn haeddu eu crybwyll fel drafftio diffygiol, yr wyf yn awgrymu y byddai'n ddymunol eu cywiro.

**Cyfeiriadau at yr "Ysgrifennydd Gwladol" yn y diwygiadau**

Dywedir yn y Nodyn Esboniadol fod swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan Ddeddf 1989 yn arferadwy gan y Cynulliad Cenedlaethol yn rhinwedd Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau 1999 "gyda rhai eithriadau", a "gan hynny" fod pob cyfeiriad yn y diwygiadau at yr "Ysgrifennydd Gwladol" yn gyfeiriadau mewn gwirionedd at y Cynulliad.

Er bod y diwygiadau yn cyflwyno swyddogaethau newydd ar gyfer yr "Ysgrifennydd Gwladol", cytunir mai'r unig ddehongliad call yw i'r rhain ddod yn rhan o swyddogaethau presennol yr "Ysgrifennydd Gwladol" sydd wedi'u trosglwyddo i'r Cynulliad.

Er hynny, fe ddylid rhoi ystyriaeth i ychwanegu paragraff at Erthygl 2 i'r perwyl bod y cyfeiriadau at yr "Ysgrifennydd Gwladol" i gael eu dehongli fel cyfeiriadau at y Cynulliad. Byddai'n briodol cynnwys hyn mewn Memorandwm Cywiriadau.

**Rheoliad 2**

Mae'r cyfreithiwr a ddrafftiodd y Gorchymyn wedi'i gyfeirio at y Cwnsler Seneddol am ei

fod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol.  Gan hynny, mae’r dull drafftio sydd wedi’i fabwysiadu yn Rheoliad 2 wedi’i seilio ar yr hyn a awgrymwyd gan y Cwnsler Seneddol.

**Yr Atodlen– paragraff 1, llinell 1**

Mae yma wall teipograffyddol, sef y dylai ‘(e)’ yn y testun Saesneg fod mewn print tywyll.

**Yr Atodlen– paragraff 3**

Mae’r rhif anghywir, sef 4, wedi’i roi ar hwn.

**Mick Bates AM**
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

13 Chwefror 2001